# Cyngor Sir y Fflint

## Strategaeth Pum Mlynedd i Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg

## 2019-2024



CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

# Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg
# 2019 – 2024

## CYNNWYS


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | Rhagair | 3 |
| 1. | Cyflwyniad | 4 |
| 2. | Nod | 5 |
| 3. | Y Sefyllfa Bresennol | 6 |
| 4. | Darpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg | 8 |
| 5. | Dysgu Cymraeg - Oedolion | 9 |
| 6. | Gweithio Mewn Partneriaeth | 10 |
| 7. | Rôl a Chyfraniad Sefydliadau Cenedlaethol | 11 |
| 8. | Cyfleoedd i Ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned – ar hyn o bryd ac yn y dyfodol | 12 |
| 9. | Caffael | 14 |
| 10. | Dathlu Diwylliant Cymru | 14 |
| 11. | Monitro ac adolygu | 15 |
| 12 | Casgliad | 15 |
| **Atodiadau** | | |
| Atodiad 1 | Proffil sgiliau ieithyddol trigolion Sir y Fflint a gweithwyr y Cyngor | |
| Atodiad 2 | Cynllun Gweithredu | |


## Rhagair

Croeso i Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg Cyngor Sir y Fflint 2019 – 2024. Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o hunaniaeth ddiwylliannol Sir y Fflint a buom yn falch o gael

dathlu ein treftadaeth ieithyddol, gan groesawu un o Eisteddfodau mwyaf llwyddiannus yr Urdd yn 2016.

Rydym yn gwbl ymroddedig i gefnogi'r Iaith Gymraeg ac yn parhau i ddarparu grantiau i'r Urdd, y Fenter Iaith a'r Mudiad Meithrin ac yn gweithio mewn partneriaeth â hwy. Mae'r ymagwedd bartneriaeth hon wedi arwain at agor ysgol cyfnod sylfaen cyfrwng Cymraeg newydd, Ysgol Croes Atti – Glannau Dyfrdwy, yn 2014 yng Nglannau Dyfrdwy. Mae hon yn darparu cyfle cyffrous i deuluoedd yn ardal Glannau Dyfrdwy gael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg yn lleol. Bu'r Cyngor hefyd yn llwyddiannus wrth sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i gynyddu cynhwysedd Ysgol Glanrafon, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn yr Wyddgrug. Bydd y cynnydd yn y cyfleoedd sydd i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn cyfrannu'n sylweddol at y strategaeth hon i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg.

Mae ein gwaith o ran darparu gwasanaethau dwyieithog wedi cael ei gydnabod yn allanol. Ychydig flynyddoedd yn ôl, enwebwyd y Gwasanaethau Cymdeithasol am wobr yng Ngwobrau'r Gymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol. Derbyniwyd gwobr cydnabyddiaeth arbennig ganddynt am eu gwaith yn hyrwyddo ac yn darparu gwasanaethau iaith Gymraeg ar gyfer preswylwyr yn llety tai gofal ychwanegol Llys Jasmine. Daethant yn ail hefyd yng Ngwobr Arbennig y Gweinidog am ddarparu gwasanaethau dwyieithog.

Credwn ein bod wedi gwneud cynnydd cyson o ran darparu gwasanaethau dwyieithog. Fodd bynnag, mae datblygu a gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg ar gyfer y sir yn cyflwyno her newydd, uchelgeisiol i'r Cyngor. O safbwynt gosod targedau ar gyfer cynnal neu gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar gyfer y sir, yn ôl hynny a fynnir gan Safonau'r Gymraeg, yn erbyn cefndir o niferoedd gostyngol o siaradwyr Cymraeg, ni all y Cyngor gyflawni hyn ar ei ben ei hun. Mae angen i ni weithio'n agos gyda'n partneriaid a chymryd ymagwedd fesul cam i greu newid hirdymor, o genhedlaeth i genhedlaeth. Bu ymrwymiad Coleg Cambria, y Fenter Iaith, y Mudiad Meithrin a'r Urdd yn amhrisiadwy wrth ddatblygu'r strategaeth hon; hoffem ddiolch iddynt am eu cyfraniad, ac edrychwn ymlaen at gael eu cefnogaeth barhaus.

Mae eich cefnogaeth a'ch ymrwymiad i'r strategaeth hon yn hanfodol, p'un a ydych yn siaradwr Cymraeg, yn ddysgwr Cymraeg neu os nad ydych yn siarad unrhyw Gymraeg, byddwn yn hoffi clywed eich barnau. Rydym eisiau gwybod beth yr ydych yn ei feddwl a pha gamau y gallwn eu cymryd yn y dyfodol i wneud y Gymraeg yn fwy gweledol a chodi ei phroffil er mwyn diogelu ei dyfodol.

Colin Everett
Prif Weithredwr

Y Cyng. Billy Mullin
Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol

## Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg 2019/24

## 1. Cyflwyniad

1.1. Roedd Cyngor Sir y Fflint wedi nodi ei ymrwymiad i'r Iaith Gymraeg yn ei Gynlluniau Iaith Gymraeg blaenorol. Mae'r Cynlluniau Iaith Gymraeg wedi'u disodli bellach gan Safonau'r Gymraeg. Mae'n ofynnol i Gyngor Sir y Fflint gydymffurfio â'r Safonau a osodir o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011; mae'r Mesur yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru.

Nod y Safonau yw parhau a datblygu gwaith y Cynlluniau Iaith Gymraeg:

- gwella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu derbyn gan sefydliadau drwy gyfrwng y Gymraeg
- cynyddu'r defnydd a wneir gan bobl o wasanaethau Cymraeg
- egluro i sefydliadau beth mae angen iddynt ei wneud yn nhermau'r Gymraeg

Mae Safon 145 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddatblygu Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg sy'n nodi sut y byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg er lles cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol. Rydym yn ymroddedig i weithredu i gyflawni hyn ac yn hyderus bod gan y Gymraeg yn Sir y Fflint ddyfodol ffyniannus. Mae Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg yn nodi sut y byddwn yn gwneud hyn.

1.2 Fel awdurdod lleol, rydym yn cydnabod bod cyfrifoldeb a dyletswydd arnom fel arweinydd cymunedau i hyrwyddo, cefnogi a diogelu'r Gymraeg er budd cenedlaethau heddiw a rhai'r dyfodol. Rydym yn ymroddedig i gymryd camau i gyflawni hyn ac yn hyderus bod gan yr Iaith Gymraeg yn Sir y Fflint ddyfodol ffyniannus. Mae'r Strategaeth hon i Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg yn nodi sut y byddwn yn gwneud hyn.

1.3 Mae gallu defnyddio'r Gymraeg yn bwysig. O ran busnesau sy'n gallu cynnig gwasanaethau dwyieithog, mae'n rhoi mantais iddynt dros eu cystadleuwyr ac yn rhoi sgil ychwanegol i ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg wrth ymgeisio am swyddi. Yn ogystal, caiff siaradwyr Cymraeg y cyfle i brofi dau ddiwylliant gwahanol.

1.4 Mae datblygu Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg ar gyfer Sir y Fflint yn hanfodol o safbwynt cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei nod o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o'n hunaniaeth ac rydym yn falch o'n treftadaeth. Mae'n un o'r ieithoedd lleiafrifol cryfaf yn Ewrop, a chredir mai hon yw'r iaith hynaf sy'n goroesi yn Ewrop. Mae'r Gymraeg yn iaith fywiog a gellir ei chlywed yn y gweithle, mewn ysgolion a siopau yn Sir y Fflint.

1.5 Roedd ffigyrau o Gyfrifiad 2011 yn dangos bod cyfran trigolion Sir y Fflint sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng ychydig i 13.2% (19,343 o bobl) yn 2011, o gymharu â 14.4% (20,599 o bobl) yn 2001. Mae'n bwysig na cheir unrhyw ostyngiad pellach yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn y sir; felly, yn ystod pum mlynedd gyntaf y Strategaeth, bwriadwn gynyddu canran y siaradwyr Cymraeg yn y sir.

1.6 Gall gymryd hyd at chwe/saith mlynedd i ddysgwr allu sgwrsio'n hyderus, a gan fod tua 5% o'n holl ddisgyblion ysgol yn mynychu ein hysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, bydd cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn newid sy'n cynyddu fesul cam, o genhedlaeth i genhedlaeth.

## 2. Nod

2.1 Nod Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg Sir y Fflint ar gyfer y cyfnod 2019/24 yw hybu, cefnogi a diogelu'r iaith Gymraeg er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Byddwn yn cefnogi **cynydd** yn y lefel bresennol o siaradwyr Cymraeg (13.2%/19,343) o

fewn y sir i 21,891 (15%) o bobl yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn gyfystyr â chynydd o oddeutu 2548 o siaradwyr Cymraeg (dros dair mlwydd oed) dros y pum mlynedd nesaf. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth y cynnydd yn nifer y plant sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg fel a nodwyd yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn ogystal â chynnydd yn nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg. Ein nod yn y tymor hwy, ar ôl 2023, yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg gan greu sir ddwyieithog lle mae'r Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd bob dydd.

### 2.2 Fe wnawn hyn drwy gyflawni'r amcanion a ganlyn

i) Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y sir
ii) Cynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn y sir
iii) Creu amodau ffafriol i'r iaith ffynnu.

### 2.3 Targedu a mesur cynnydd

Ein targed yn ystod y pum mlynedd nesaf yw cefnogi'r **cynnydd** yn nifer y boblogaeth yn Sir y Fflint sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg. Ein huchelgais yn y tymor hwy yw cynyddu nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn y sir i greu sir ddwyieithog yn y pen draw, a chefnogi Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Byddwn yn mesur cynnydd drwy fonitro:

- nifer y disgyblion sy'n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir (Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021)
- nifer y bobl nad oes ganddynt unrhyw wybodaeth am y Gymraeg (Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021)
- nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg yn y sir
- nifer a chanran gweithwyr Cyngor Sir y Fflint sy'n dweud bod eu sgiliau Cymraeg ar lefel 4 (uwch) a lefel 5 (rhugl)

2.4 Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir yn cael ei dylanwadu gan sawl ffactor: nifer y disgyblion sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg, nifer yr oedolion sy'n dewis dysgu Cymraeg, a nifer y siaradwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg sy'n symud i mewn ac allan o'r ardal. Sir ffiniol yw Sir y Fflint a chanddi gysylltiadau cludiant ardderchog i Swydd Gaer, Cilgwri, Manceinion a Swydd Amwythig, sy'n golygu bod pobl yn ymfudo'n barhaus i mewn ac allan o'r sir. Mae'r twf o ran tai a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol yn gyfle i annog perchnogion tai newydd i ddysgu Cymraeg, i fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg a defnyddio eu sgiliau Cymraeg.

2.5 Ni allwn gyflawni'r strategaeth hon ar ein pennau ein hunain; rydym yn dibynnu ar weithio'n agos â'n partneriaid ym maes addysg a'r sector gwirfoddol i sicrhau bod hyfforddiant ar gael, ochr yn ochr â chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd. Golyga hyn bod angen:

- digon o gyfleoedd i rieni gael mynediad i ofal plant a gwasanaethau addysg drwy gyfrwng y Gymraeg;
- digon o gyfleoedd dysgu ar yr adeg iawn ac ar y lefel iawn, i ddiwallu anghenion dysgwyr;
- cyfleoedd i ddefnyddio sgiliau Cymraeg ac i gynyddu hyder mewn gwahanol sefyllfaoedd;

- cyfleoedd i bobl ifanc Cymraeg sy'n gadael ysgol barhau i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn gymdeithasol, drwy hyfforddiant galwedigaethol ac academaidd ac yn y gwaith; a
- rhagor o wasanaethau dwyieithog.

2.6 Bydd effaith y Strategaeth hon yn cael ei chryfhau gan y cyd-destun polisi cenedlaethol a lleol:

- Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg Sir y Fflint (2017/2020), sy'n nodi ymrwymiad y Cyngor i gefnogi, ymestyn a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn y gymuned gyfan, a chynyddu nifer a chanran y disgyblion sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg, i ddatblygu dysgwyr sy'n gwbl ddwyieithog (h.y. yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg).
- Polisi'r Gymraeg yn y Gweithle Cyngor Sir y Fflint a fydd yn annog gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, pa lefel bynnag yw eu Cymraeg.
- Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint fydd efallai'n mynnu bod rhaid ymgymryd ag asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg ar gyfer datblygiadau newydd.
- Strategaeth Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 sy'n bwriadu cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, rhagor o blant mewn addysg cyfrwng Cymraeg, cynllunio gwell o ran sut y mae pobl yn dysgu'r iaith, cyfleoedd sy'n ei gwneud yn haws i bobl gael defnyddio'r iaith, isadeiledd cryfach a chwyldro o ran gwella darpariaeth ddigidol yn y Gymraeg, ynghyd â newid llwyr o ran y modd yr ydym yn siarad am yr iaith.
- Mwy na Geiriau, sef Fframwaith Llywodraeth Cymru i gryfhau gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ym maes iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n bwriadu gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae hon yn mynnu bod sefydliadau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni saith nod llesiant, ac un ohonynt yw:

  **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.**

## 3. Y sefyllfa bresennol – siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint

Gellir cael manylion ynghylch proffil siaradwyr Cymraeg yn y sir yn Atodiad 1. Mae'r tabl isod yn dangos bod nifer y bobl sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg yn Sir y Fflint yn lleihau. Yn 2001, roedd 14.4% o'r bobl yn dweud y gallent siarad Cymraeg o gymharu â 13.2% yn 2011. Yn flaenorol, roedd adroddiadau'r Cyfrifiad o 1981 a 1991 yn dangos cynnydd cyson yng nghanran y bobl a oedd yn siarad Cymraeg, yn codi o 12.66% yn 1981 i 13% o'r bobl yn dweud y gallent siarad Cymraeg yn 1991. Cododd hwn i 14.4% yn 2001.

Ceir saith ward yn Sir y Fflint lle mae dros 20% o'r trigolion yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg, a cheir pymtheg ward lle mae llai na 10% o'r bobl yn dweud y gallant siarad Cymraeg. Nodir hyn yn y tablau a ganlyn:

Proffil y wardiau a chanddynt y ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

| Ward | % |
|---|---|
| De’r Wyddgrug | 30.6 |
| Trelawnyd a Gwaenysgor | 26.2 |
| Treuddyn | 24.4 |
| Ffynnongroyw | 22.9 |
| Helygain | 20.7 |
| Chwitffordd | 20.7 |
| Caerwys | 20.3 |

Proffil y wardiau a chanddynt y ganran isaf (llai na 10%) o siaradwyr Cymraeg
Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

| Ward | % |
|---|---|
| Saltney Stonebridge | 6.1 |
| Sealand | 7.5 |
| Saltney Cyffordd yr Wyddgrug | 7.8 |
| Gogledd Ddwyrain Brychdyn | 8.5 |
| Dwyrain Shotton | 8.7 |
| Canol Cei Connah | 8.7 |
| Y Fferi Isaf | 9.0 |
| Cei Connah - Gwepre | 9.1 |
| De Brychdyn | 9.3 |
| Bwcle Dwyrain Bistre | 9.3 |
| Gorllewin Shotton | 9.4 |
| Mancot | 9.5 |
| Aston | 9.6 |
| Shotton Uchaf | 9.9 |
| Bwcle Gorllewin Bistre | 9.9 |

## 4. Darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg

Mae gan Sir y Fflint ar hyn o bryd bum ysgol gynradd ac un ysgol Uwchradd Gymraeg sy'n cyflwyno addysg cyfrwng Cymraeg sydd, yn ddaearyddol, wedi'u gwasgaru ar draws yr awdurdod:

- Ysgol Mornant, Gwespyr Picton *
- Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon
- Ysgol Croes Atti y Fflint, gan gynnwys safle arall yng Nglannau Dyfrdwy yn Shotton
- Ysgol Glanrafon, Yr Wyddgrug
- Ysgol Terrig, Treuddyn
- Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug (uwchradd)

Proffil presennol disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yw:

- Disgyblion cynradd – 869 o ddisgyblion, sydd gyfystyr â 6.22% o'r holl ddisgyblion oed cynradd.
- Disgyblion uwchradd – 531 o ddisgyblion, sydd gyfystyr â 5.71% o'r holl ddisgyblion oed uwchradd.

Yn ogystal, mae rhai disgyblion yn teithio i ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn awdurdodau cyfagos. Gwyddys o gofnodion trafnidiaeth ysgolion fod 74 o blant o Sir y Fflint yn mynychu Ysgol Glan Clwyd ac Ysgol Tremeirchion yn Sir Ddinbych. Bydd dadansoddiad pellach ar nifer y plant o Sir y Fflint sydd yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn awdurdodau cyfagos yn cael ei gynnal er mwyn cael proffil mwy cywir.

Mae Cynllun y Gymraeg mewn Addysg (CGMA) 2017/2020 y Cyngor yn nodi sut y byddwn yn cefnogi, yn ehangu ac yn hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r canlyniadau yn cynnwys:

Canlyniad 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

Canlyniad 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd.

Canlyniad 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Canlyniad 4: Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn y pynciau astudio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau, a lleoliadau dysgu seiliedig ar waith.

### Arfer Da

Dyfarnwyd gwobr Arian y Siarter Iaith i bob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint am eu defnydd cynyddol o'r Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol, ac erbyn hyn maent yn gweithio tuag at y Wobr Aur. Mae 45 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg wedi ymrwymo i'r prosiect Cymraeg Campus ac yn gweithio tuag at y Wobr Efydd.



## 5. Dysgu Cymraeg – Oedolion

Y darparwr swyddogol o ran y Gymraeg i oedolion sy'n ddysgwyr yng Ngogledd Ddwyrain Cymru yw Coleg Cambria. Maent yn darparu ystod o gyrsiau iaith Gymraeg ar gyfer y rheiny sy'n ddechreuwyr llwyr, hyd at gyrsiau uwch. Y ffigyrau ar gyfer nifer yr oedolion sy'n dysgu'r Gymraeg yn y sir ar hyn o bryd yw:

| Lefel | Niferoedd a gofrestrwyd 2018/19 |
|---|---|
| | **Nifer** |
| Mynediad | 147 |
| Sylfaen | 58 |
| Canolradd | 61 |
| Uwch | 51 |
| Rhugl | 73 |
| Cyfanswm | 390 |

### Gweithwyr y Cyngor

Mae 64 o weithwyr y Cyngor yn dysgu Cymraeg (2018/19)

| Teitl y Cwrs | Niferoedd a gofrestrwyd yn 2017 | Niferoedd a gofrestrwyd yn 2018 |
|---|---|---|
| Sgiliau iaith sylfaenol | 48 | |
| Cyn-fynediad | | 1 |
| Mynediad | 50 | 34 |
| Sylfaen | 7 | 12 |
| Canolradd | 23 | 3 |
| Uwch | 1 | 9 |
| Rhugl | 10 | 5 |
| **Cyfanswm** | **139** | **64** |

### Arfer Da

Mae rhai timau'n annog dysgwyr Cymraeg i ymarfer eu Cymraeg drwy dreulio 10 munud unwaith yr wythnos pryd y bydd pawb yn siarad Cymraeg – pa lefel bynnag ydynt.

## 6. Gweithio mewn partneriaeth

Ni all y Cyngor gyflawni'r targedau hyn o ran cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir heb gymorth ac ymrwymiad ein partneriaid.

Trwy'r Fforwm Sirol, mae'r Cyngor yn gweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned, a gyda'i gilydd, maent wedi cyhoeddi Siarter sy'n nodi sut y bwriadwn gydweithio er budd cymunedau lleol, gan gydnabod ein cyfrifoldebau ein hunain fel cyrff statudol ymreolaethol sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd. Mae'r Iaith Gymraeg yn elfen bwysig o'r siarter, o ran gweithio gyda'n gilydd i hyrwyddo'r iaith a diwylliant Cymru.

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i bob ardal cyngor lleol yng Nghymru gael Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a chanddo'r pwrpas o weithio ar y cyd i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn yr ardal leol. Yn BGC Sir y Fflint ceir uwch arweinwyr o nifer o sefydliadau cyhoeddus a gwirfoddol. Mae ymgysylltiad ac ymrwymiad y BGC i'r Strategaeth hon yn hanfodol os am gyflawni ei nod. Mae gan Sir y Fflint hanes hirsefydlog a balch o weithio mewn partneriaeth. Mae'r cymunedau a wasanaethir ganddi'n disgwyl i bartneriaid statudol a rhai yn y trydydd sector weithio gyda'i gilydd i reoli blaenoriaethau a rennir drwy gydweithio. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir y Fflint wrth wraidd hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o weithio gyda'i gilydd ac yn canolbwyntio ei ynni, ei

ymdrechion a'i adnoddau ar ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol i gymunedau lleol.

### Arfer Da

Cynhwysir ymrwymiadau i'r Iaith Gymraeg o fewn Siarter Fforwm Sirol Sir y Fflint

## 7. Rôl a chyfraniad cyrff cenedlaethol

### Llywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol o ran cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Bydd yn cyfrannu mewn sawl modd:

- arwain drwy esiampl a hyrwyddo'r iaith a diwylliant Cymru ym mhopeth a wna;
- sicrhau bod technoleg sy'n cydweddu â'r Gymraeg ar gael yng Nghymru, er enghraifft, Porth Cynllunio Cymru;
- datblygu adnoddau i gefnogi awdurdodau lleol i hyrwyddo'r Gymraeg;
- cefnogi datblygiad adnoddau ar gyfer rhai sy'n dysgu Cymraeg a siaradwyr Cymraeg sy'n dymuno parhau i ddatblygu eu sgiliau;
- dylanwadu ar y sectorau preifat a gwirfoddol i gofleidio'r Gymraeg.

### Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Ariennir y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gan Lywodraeth Cymru ac mae'n gyfrifol am bob agwedd ar y rhaglen addysg Cymraeg i Oedolion. Mae hyn yn cynnwys datblygu cwricwlwm a chyrsiau, adnoddau ar gyfer tiwtoriaid, ymchwil, marchnata ac e-ddysgu. Pwrpas y Ganolfan yw cynyddu niferoedd y bobl sy'n dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg. Mae rhwydwaith o 11 o ddarparwyr yn cyflenwi cyrsiau ar ei rhan. Coleg Cambria yw'r darparwr ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru.

Mae gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol rôl allweddol o ran sicrhau bod cyfleoedd hyblyg ar gael i ddysgu Cymraeg, gan gynnwys rhoi cymorth i oedolion sy'n ddysgwyr ddatblygu sgiliau ar gyfer y gweithle.

### Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch

O ran datblygu cyfleoedd i astudio cyrsiau galwedigaethol ac academaidd drwy gyfrwng y Gymraeg, cyfrifoldeb sefydliadau addysg bellach ac uwch yw hyn. Maent yn cyfrannu nid yn unig at ddatblygu sgiliau athrawon o fewn ysgolion, ond yn paratoi gweithlu'r dyfodol sy'n gallu darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 8. Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned – ar hyn o bryd ac yn y dyfodol

Ceir amryw gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn Sir y Fflint.

**Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar**
I hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar ac mewn darpariaeth gofal plant, ceir partneriaeth gref rhwng y Cygor a'r Mudiad Meithrin (MM). Darperir grantiau i'r MM gyflenwi'r canlynol:-

- Gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gyfer y Prosiect Dechrau'n Deg.
- Gofal plant cyfrwng Cymraeg i blant a chanddynt lefel uchel o anghenion cymdeithasol, fel yn achos ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.
- Addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector nas cynhelir.
- Darpariaeth o ran lleoedd a gynorthwyir mewn gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Yn ogystal, dyfarnir grantiau gan Gyngor Sir y Fflint i gymdeithas sirol MM gyflenwi hyfforddiant i weithwyr/gwirfoddolwyr yn y Cylchoedd Meithrin a'r grwpiau Ti a Fi.

**Gwasanaethau Hamdden a Llyfrgelloedd**
Mae Aura yn sefydliad elusennol, dielw, sy'n gyfrifol am reoli'r mwyafrif o'r canolfannau hamdden a'r llyfrgelloedd a weithredwyd yn uniongyrchol yn flaenorol gan Gyngor Sir y Fflint. Mae Aura yn darparu gwersi nofio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn gwahanol ganolfannau ledled y sir. O fewn y gwasanaeth llyfrgelloedd a reolir gan Aura:

- Darperir llyfrau ym mhob categori yn y Saesneg a'r Gymraeg (llyfrau, CDs, DVDs, llyfrau llafar, eLyfrau) yn ôl y polisi ar gyfer stoc;
- Mae grwpiau darllen, Amser Rhigwm, amser stori a gweithgareddau i blant, ymweliadau ysgol, ymweliadau awduron ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Tudalen Facebook ddwyieithog ar gyfer llyfrgelloedd;
- Mae cynlluniau hybu darllen, er enghraifft, Her Darllen yr Haf, ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Menter Iaith**
Sefydliad dielw yw Menter Iaith y Fflint a Wrecsam ac mae'n gweithio i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned yn y sir, gan sicrhau bod yr iaith yn dod yn rhan ganolog o fywyd yn Sir y Fflint, a bod y cyfrifoldeb dros ei dyfodol yn cael ei rannu gan bob dinesydd.

Gwna hyn yn bennaf drwy:

- drefnu gweithgareddau i deuluoedd, plant a phobl ifanc, grwpiau cymunedol a dysgwyr;
- gweithio gyda busnesau i godi ymwybyddiaeth o werth yr Iaith Gymraeg a sgiliau dwyieithog eu gweithwyr;
- annog unigolion i ddefnyddio eu Cymraeg;
- cefnogi'r rheiny sy'n awyddus i basio'r iaith i eraill, yn enwedig o fewn y teulu;
- gweithio gyda'r gymuned i godi ymwybyddiaeth ac i wella'r ddealltwriaeth o hawliau siaradwyr Cymraeg o dan y ddeddfwriaeth bresennol, ynghyd ag annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt.

**Cynllunio**
Mae Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor yn gweithio gyda Datblygwyr i ganfod cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg i bobl o fewn datblygiadau tai newydd. Hefyd, mae polisïau penodol yn adlewyrchu gofynion yng nghyswllt y Gymraeg, er enghraifft, Polisi Enwi Strydoedd.

**Chwarae**
Mae Tîm Chwarae'r Cyngor, mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru, yn cyflenwi cynlluniau chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y gwyliau'r haf mewn gwahanol leoliadau ledled Sir y Fflint.

**Gwasanaeth Arlwyo Ysgolion – NEWydd –** yn darparu gwasanaeth arlwyo dwyieithog i ysgolion. Mae NEWydd yn Gwmni Masnachu newydd sbon o dan yr awdurdod lleol a grewyd i ddarparu gwasanaethau arlwyo a glanhau ansawdd uchel, ariannol hyfyw, cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.

**Theatr Clwyd**
Mae Theatr Clwyd yn cynnig amryw weithgareddau sy'n gwneud y Gymraeg yn fwy gweladwy a chlywadwy:

- Cyflwynwyd rhestr chwarae ddwyieithog ar gyfer cerddoriaeth blaen y tŷ.
- Cynigir amryw raglenni drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys sinema, cerddoriaeth a'r theatr.
- Mae wedi cynhyrchu a chyd-gynhyrchu amryw sioeau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn blynyddoedd diweddar, gydag un sioe, "Mimosa", yn teithio ar draws Cymru a Phatagonia yn 2015.
- Fel rhan o Raglen Perthnasau Iach Llywodraeth Cymru, roedd y Tîm Ymgysylltu Creadigol wedi mynd i bartneriaeth gyda Gwasanaeth Ieuenctid Integredig y Cyngor i greu a chyflenwi prosiect addysgol ar y materion heriol yng nghyswllt Cydsyniad, sydd ar gael yn y Gymraeg.
- Cynigir gwersi Cymraeg llafar i'n grŵp theatr dwyieithog i bobl ifanc "Cwmni 25", cyn iddynt ddechrau eu sesiynau wythnosol.
- Sefydlwyd Clwb Teulu i deuluoedd sy'n siarad Cymraeg, dysgwyr Cymraeg a rhieni plant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n siarad Saesneg.

**Gwasanaethau Ieuenctid**
Roedd y Gwasanaeth Ieuenctid wedi ariannu swydd ran amser am ddwy flynedd i weithio gydag ysgolion cyfrwng Saesneg i'w hannog i ymgysylltu ag Eisteddfod yr Urdd, a gynhaliwyd yn y Fflint yn 2016.

**Yr Urdd**
Mae'r Urdd yn darparu clybiau Cymraeg amser cinio sy'n rhedeg yn ystod oriau ysgol mewn ysgolion uwchradd a chynradd yn Sir y Fflint.

**Arfer Da**

Mae **Theatr Clwyd** yn cynnig sesiynau trafod dwyieithog i gynnig y cyfle i gynulleidfaoedd drafod eu cynyrchiadau yn y ddwy iaith

Mae **Tîm Chwarae'r** Cyngor, mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru, yn cyflenwi cynlluniau chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg

**Yn y gweithle**

Anogir gweithwyr i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle mor aml ag y gallant, pa lefel bynnag yw eu sgiliau. Darparwyd mynediad iddynt i Cysill (gwirydd sillafu Cymraeg) a Cysgair (geiriadur Cymraeg).

Mae'r Cyngor yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy annog gweithwyr i wisgo bathodynnau ac arddangos posteri Iaith Gwaith. Mae gweithwyr yn cynnwys y logo ar eu llofnodion e-bost; cynhwysir "Siaradwr Cymraeg" gyda chyfeiriadau e-bost siaradwyr Cymraeg. Gwneir hyn er mwyn gallu adnabod siaradwyr Cymraeg ac annog gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd a gyda sefydliadau eraill.

Gall gweithwyr gael mynediad i hyfforddiant yn yr iaith Gymraeg ar bob lefel, ac fe'u cefnogir i fynychu cyrsiau preswyl yn Nant Gwrtheyrn.

Yn ogystal, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn hwyluso dau grŵp "Paned a Sgwrs", y mae'r ddau'n cyfarfod yn fisol i roi cyfleoedd i weithwyr ymarfer eu sgiliau Cymraeg.

Arddangosir posteri Iaith Gwaith ym mhob derbynfa, mae gweithwyr sy'n siarad Cymraeg a dysgwyr Cymraeg yn gwisgo'r cortynnau gwddf a/neu fathodynnau Iaith Gwaith.

Mae gwefan y Cyngor, Apiau a pheiriannau hunanwasanaeth yn ddwyieithog, fel y mae tudalen Trydar y Cyngor. Mae Polisi Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor yn cynnwys y gofyn i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

## 9. Caffael

Mae Safonau'r Gymraeg wedi'u hymgorffori o fewn Rheolau Gweithdrefn Contractau Sir y Fflint, ac mae cymalau enghreifftiol ar gael i swyddogion comisiynu eu hymgorffori o fewn contractau.
Yn ogystal, cynhwysir ymrwymiad i'r Gymraeg o fewn canllawiau grant, gan annog derbynyddion grantiau i hyrwyddo'r Gymraeg.

## 10. Dathlu Diwylliant Cymru

Mae'r Cyngor yn darparu peth cymorth ariannol i'r Fenter Iaith ar gyfer dathlu Dydd Gŵyl Dewi o fewn canol trefi Sir y Fflint; ymhlith y gweithgareddau, ceir cystadlaethau addurno ffenestri a chanu Cymraeg. Bydd ysgolion lleol yn cymryd rhan yn y digwyddiadau hyn hefyd.

O fewn y Cyngor, darperir bwydlen ag iddi thema Gymreig i weithwyr ym mistro'r staff, a chyhoeddir eitemau newyddion am y gweithlu, ynghyd â negeseuon yn y cyfryngau cymdeithasol, yn y Gymraeg. Anogir staff i siarad Cymraeg a dechrau sgyrsiau yn y Gymraeg, pa lefel bynnag yw eu sgiliau.

Ymhlith y digwyddiadau eraill a ddathlir, yn ychwanegol i Ddydd Gŵyl Dewi, fe geir:

- Diwrnod Cerddoriaeth Gymraeg - anogir gweithwyr, disgyblion ysgol a'r cyhoedd i wrando ar gerddoriaeth Gymraeg.
- Diwrnod Santes Dwynwen – diwrnod San Ffolant Cymru
- Diwrnod Su'mae – sy'n annog pawb i siarad rhywfaint o Gymraeg

Mae’r Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhedeg digwyddiad hyrwyddo’r Iaith Gymraeg i weithwyr a defnyddwyr gwasanaeth ar Ddydd Gŵyl Dewi. Gwahoddir plant ac oedolion i mewn i wasanaethau, a thrafodir pwysigrwydd iaith mewn lleoliadau gofal, yn ogystal ag annog y defnydd o’r Gymraeg a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol.

### Arfer Da

Mae’r **Gwasanaethau Cymdeithasol** wedi datblygu menter atgofion yn y Gymraeg, ar gyfer pobl sy’n siarad Cymraeg a chanddynt ddementia a’u teuluoedd. Fel rhan o’r fenter, dyluniwyd blychau atgofion ar gyfer siaradwyr Cymraeg a Chymry Cymraeg, neu bobl sydd efallai wedi tyfu i fyny neu sydd â chysylltiadau cryf gyda Chymru. Mae’r blychau’n cynnwys cymhorthion ar gyfer y synhwyrau a’r cof ynghyd â deunydd ysgrifenedig yn y Gymraeg. Cawsant eu dylunio’n benodol ar gyfer Sir y Fflint, sy’n golygu eu bod wedi’u datblygu’n unol â diwylliannau, traddodiadau a threftadaeth lleol Cymreig.

## 11. Monitro ac adolygu

Bydd camau gweithredu a mesurau o’r Strategaeth hon yn cael eu hymgorffori o fewn system reoli perfformiad y Cyngor, a bydd cynnydd yn cael ei adrodd i’r Cabinet yn flynyddol, fel y bo angen. Cynhwysir crynodeb o’r cynnydd a wneir o fewn Adroddiad Monitro Safonau’r Gymraeg. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro drwy’r Tîm Prif Swyddogion, y Cabinet, Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu perthnasol a Rhwydwaith y Gymraeg.

## 12. Casgliad

Mae datblygu’r Strategaeth hon yn cynrychioli dechrau’r daith tuag at hyrwyddo ac amlygu’r Gymraeg, gyda’r nod yn y pen draw o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir. Rydym yn cydnabod bod gennym ffordd hir a heriol o’n blaenau. Fodd bynnag, credwn, drwy weithio’n agos gyda’n partneriaid i weithredu’r Strategaeth pum mlynedd hon, y byddwn yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer creu newid cynaliadwy hirdymor.

Croesawn eich barn, eich sylwadau a’ch awgrymiadau mewn perthynas â’r Strategaeth hon.

Cysylltwch â ni ar: Ffôn: ☎ 01352 702122
E-bost: 💻 fiona.mocko@siryfflint.gov.uk

**Atodiad 1**

## Proffil siaradwyr Cymraeg yn y sir

### Tabl 1: Gwybodaeth am y Gymraeg (2001 a 2011)

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 tabl KS207WA a Chyfrifiad 2001 tabl KS025

| | Sir y Fflint | | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfrifiad 2001 | Cyfrifiad 2011 | | Cyfrifiad 2001 | Cyfrifiad 2011 |
| | % | Nifer | % | % | % |
| Pob un 3+ | - | 146,940 | - | - | - |
| Dim gwybodaeth o’r Gymraeg | 78.6% | 116,736 | 79.4% | 71.6% | 73.3% |
| Yn deall Cymraeg llafar yn unig | 4.4% | 7,503 | 5.1% | 4.9% | 5.3% |
| Pob siaradwr Cymraeg | 14.4% | 19,343 | 13.2% | 20.5% | 19.0% |
| Yn siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | 10.9% | 13,650 | 9.3% | 16.3% | 14.6% |

### Tabl 2: Proffil sgiliau Iaith Gymraeg yn ôl oedran

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 tabl KS207WA a Chyfrifiad 2001

| Oedran | Y nifer sy n gallu siarad Cymraeg | % sy n gallu siarad Cymraeg | Ddim yn gallu siarad Cymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 3-4 | 545 | 14.4 | 3238 | 3,783 |
| 5-9 | 2,768 | 33.1 | 5,605 | 8,373 |
| 10- 14 | 3,499 | 38.9 | 5,498 | 8,997 |
| 15 -19 | 2,298 | 24.2 | 7,199 | 9,497 |
| 20- 24 | 1,152 | 12.8 | 7,818 | 8,970 |
| 25-29 | 892 | 10.4 | 7,655 | 8,547 |
| 30-34 | 938 | 11.2 | 7,439 | 8,377 |
| 35-39 | 1,009 | 10.4 | 8,715 | 9,724 |
| 40-44 | 1,005 | 8.8 | 10,470 | 11,475 |
| 45-49 | 939 | 8.0 | 10,776 | 11,715 |
| 50- 54 | 767 | 7.6 | 9,346 | 10,113 |
| 55-59 | 674 | 7.1 | 8,830 | 9,504 |
| 60- 64 | 721 | 6.5 | 10,308 | 11,029 |
| 65- 69 | 597 | 7.1 | 7,858 | 8,455 |
| 70-74 | 476 | 7.0 | 6,368 | 6,844 |
| 75- 79 | 426 | 8.6 | 4,503 | 4,929 |
| 80 -84 | 324 | 9.4 | 3,131 | 3,455 |
| 85 + | 313 | 9.9 | 2840 | 3,153 |
| **Cyfanswm** | **19,343** | | **127,597** | **146,940** |

**Tabl 3: Gwlad enedigol (2001 a 2011)**
Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 tabl KS204EW a Chyfrifiad 2001 tabl KS005

| | Sir y Fflint | | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfrifiad 2001 | Cyfrifiad 2011 | | Cyfrifiad 2001 | Cyfrifiad 2011 |
| | % | Nifer | % | % | % |
| Pawb | - | 152,506 | - | - | - |
| Pobl sy'n enedigol o Gymru | 51.1% | 76,243 | 50% | 75.4% | 72.7% |
| Pobl sy'n enedigol o Loegr | 44.7% | 67,578 | 44.3% | 20.3% | 20.8% |
| Pobl sy'n enedigol o'r Alban | | 1,673 | 1.1% | 0.8% | 0.8% |
| Pobl sy'n enedigol o Ogledd Iwerddon | | 548 | 0.4% | 0.3% | 0.3% |
| Pobl sy'n enedigol o Weriniaeth Iwerddon | | 633 | 0.4% | 0.4% | 0.4% |
| Pobl sy'n enedigol o wledydd eraill yn yr UE, aelodau 2001* | 1.3% | 1,234 | 0.8% | 0.8% | 0.9% |
| Pobl sy'n enedigol o wledydd eraill yr UE, gwledydd sydd wedi'u derbyn** | - | 2,198 | 1.4% | - | 0.9% |
| Pobl sy'n enedigol o leoedd eraill | | 2,363 | 1.5% | 1.9% | 3.3% |

Tabl 4: Proffil gweithwyr Cyngor Sir y Fflint sy'n siarad Cymraeg, Tachwedd 2018

| Portffolio | Lefel 0 | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Weithredwyr | 8 | 12 | 10 | 3 | 3 | 5 | 41 |
| Cymuned a Mentrau | 151 | 123 | 35 | 16 | 10 | 12 | 347 |
| Addysg ac Ieuenctid | 56 | 80 | 42 | 7 | 12 | 11 | 208 |
| Llywodraethu | 41 | 50 | 14 | 2 | 4 | 3 | 114 |
| Newid Trefniadol 1 | 24 | 35 | 13 | 1 | 8 | 11 | 92 |
| Newid Trefniadol 2 | 15 | 15 | 4 | 1 | 1 | 0 | 36 |
| Pobl ac Adnoddau | 41 | 83 | 27 | 6 | 8 | 3 | 168 |
| Cynllunio a'r Amgylchedd | 52 | 61 | 17 | 6 | 12 | 5 | 153 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 379 | 315 | 123 | 26 | 25 | 26 | 894 |
| Strydwedd a Chludiant | 197 | 159 | 35 | 7 | 11 | 9 | 418 |
| **CYFANSWM** | **964** | **933** | **320** | **75** | **94** | **85** | **2,471** |

Atodiad 2 **Cynllun Gweithredu – Sut y byddwn yn cyflawni ein hamcanion**

| **Amcan: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y Sir** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Cyfrifoldeb** | **Ffrâm Amser** | **Canlyniad / Deilliant** | **Cynnydd** |
| Rhoi’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith | Addysg ac Ieuenctid | Parhaus | Cynnydd yn y nifer o blant a phobl ifanc sydd â mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.<br><br>Cynnydd yn y defnydd o’r Gymraeg o fewn ysgolion cyfrwng Saesneg. | Parhaus |
| Rhoi’r Siarter Iaith ar waith ar draws yr holl ysgolion cyfrwng Cymraeg a gweithio tuag at gyflawni statws Aur | Addysg ac Ieuenctid | Parhaus | Cynnydd yn y defnydd o’r Gymraeg o fewn ac y tu allan i’r ysgol. | Parhaus - mae sawl ysgol wedi cyflawni’r wobr Aur |
| Cydweithio â’r Fforwm Sirol i ddatblygu cynllun i hyrwyddo hyfforddiant yn y Gymraeg a chynyddu nifer yr oedolion o fewn y sir sy’n dysgu Cymraeg. | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Gorffennaf 2019 | Cynllun wedi’i sefydlu a chynydd yn nifer y cofrestriadau ar gyfer cyrsiau dysgu Cymraeg | Parhaus |
| Cynhyrchu pamffled ynglŷn â phwysigrwydd yr iaith Gymraeg i breswylwyr Sir y Fflint. | Ymgynghorydd Polisi Strategol mewn Partneriaeth â Choleg Cambria, Menter Iaith Fflint a Wrecsam, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Ebrill 2019 | Pamffled wedi ei gyhoeddi a’i hyrwyddo | Mae Hwb Cymraeg wedi cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor |
| Defnyddio gwefan a chyfryngau cymdeithasol y Cyngor i hyrwyddo | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Parhaus | Y Cyngor yn dangos ei ymroddiad i’r Iaith Gymraeg | Wedi ei gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| pwysigrwydd dysgu'r Iaith Gymraeg a mynediad at adnoddau i ddysgwyr. | | | | |
| **Cynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn y sir wrth ddefnyddio gwasanaethau, yn gymdeithasol, ac yn y gweithle** | | | | |
| **Camau Gweithredu** | **Cyfrifoldeb** | **Ffrâm Amser** | **Canlyniad / Deilliant** | **Cynnydd** |
| **Gwasanaethau** | | | | |
| Hyrwyddo'r Strategaeth hon i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'u hannog i nodi camau gweithredu y gallant eu cymryd a fydd yn cyfrannu at ei deilliannau | Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol | Rhagfyr 2019 | Cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg a chynnydd yn y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg | Wedi ei gwblhau |
| Rhannu'r Strategaeth â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn nodi cyfleoedd i gydweithio | Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol | Rhagfyr 2019 | Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydweithio i hyrwyddo amlygrwydd a hyglywedd yr Iaith Gymraeg yn Sir y Fflint | Mae'r Gymraeg bellach wedi'i chynnwys o fewn gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |
| Cynnwys yr Iaith Gymraeg o fewn y Siarter rhwng y Cyngor a Chynghorau Tref a Chymuned | Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol | Wedi'i gwblhau | Cynghorau Tref a Chymuned yn cynnwys yr Iaith Gymraeg fel rhan naturiol o'u gwaith bob dydd | Wedi ei gwblhau |
| Rhoi fframwaith "Mwy na Geiriau" ar waith | Gwasanaethau Cymdeithasol | Parhaus | Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn y sector gofal | Parhaus |
| Gwasanaethau i fabwysiadu egwyddor y "Cynnig Rhagweithiol" | Rhwydwaith Arweinwyr y Gymraeg | Rhagfyr 2019 | Gwasanaethau yn weithredol wrth hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.<br>Cynnydd yn y nifer sy'n dewis gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.<br>Cynnydd yn y defnydd o'r logo Iaith Gwaith. | Mae sawl fideo wedi cael eu creu i hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cydweithio â Chyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint i adnabod mentrau sy'n annog y sector wirfoddol i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg. | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Mawrth 2020 | Mwy o sefydliadau yn y sector wirfoddol yn hyrwyddo'r Iaith Gymraeg ac yn cymryd rhan mewn mentrau sy'n dathlu diwylliant Cymreig. | Wedi'i gynnwys fel rhan o'r Polisi Grantiau. Mae'n rhaid i sefydliadau sy'n ymgeisio am grantiau ddangos sut fydd eu mentrau'n cefnogi'r Gymraeg |
| Datblygu cynllun i annog mwy o gwsmeriaid i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein trwy gyfrwng y Gymraeg | Rhwydwaith Arweinwyr y Gymraeg mewn partneriaeth â'r Fforwm Sirol | Rhagfyr 2019 | Cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio tudalennau cyfrwng Cymraeg ar y wefan a'r safleoedd cyfryngau cymdeithasol | Parhaus |
| Sicrhau fod yr holl weithwyr wrth ddesgiau derbynfa a phrif switsfyrddau yn gallu cyfarch yn ddwyieithog ac â sgiliau iaith sylfaenol yn y Gymraeg | Rheolwyr | Parhaus | Nifer a chanran y gweithwyr wrth fannau derbyn, prif switsfyrddau a chanolfannau cyswllt all siarad Cymraeg | Cysylltir â phob aelod o staff nad oes ganddynt sgiliau Cymraeg i gwblhau'r cwrs hyfforddi |
| Sicrhau fod yr holl arwyddion, cyhoeddiadau, deunyddiau hyrwyddo a llofnodion e-byst yn gosod y Gymraeg yn gyntaf er mwyn annog siaradwyr rhugl a dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg | Rhwydwaith Arweinwyr y Gymraeg | Medi 2019 | Cynnydd yn amlygrwydd yr Iaith Gymraeg | Mae arwyddion a gomisiynwyd drwy Ddylunio Graffeg yn cydymffurfio. Mae canllawiau ar gael ar gyfer gweithwyr a chontractwyr. Gall unrhyw |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gontractwr sy'n ymgeisio am dendrau weld y canllawiau hyn. |
| Nodi cyfleoedd sydd ar gael i wasanaethau ddarparu yn Gymraeg / ddwyieithog | Rhwydwaith Arweinwyr y Gymraeg | Parhaus | Cynnydd yn nifer y gwasanaethau dwyieithog sydd ar gael | Parhaus |
| **Cymdeithasol** | | | | |
| Dechrau grŵp drama cyfrwng Cymraeg newydd i blant rhwng 6 – 11 oed. | Cyfarwyddwr Ymgysylltu Creadigol Theatr Clwyd | Parhaus | Cynnydd yn y cyfleoedd sydd ar gael i blant ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol | Mae Theatr Clwyd yn parhau â'r bartneriaeth addysgol gyda thair ysgol Gymraeg a thair ysgol Saesneg i gynnig rhannu creadigol o fewn y Gymraeg. |
| Datblygu grŵp Ieuenctid cyfrwng Cymraeg i ddatblygu gwneuthurwyr theatr ifanc Cymraeg | Cyfarwyddwr Ymgysylltu Creadigol Theatr Clwyd | Parhaus | Rhagor o gyfleoedd i glywed y Gymraeg a chynyddu ei hamlygrwydd | Mae'r mwyafrif o weithwyr craidd y tîm Ymgysylltu Creadigol sy'n llywio'r gwaith hwn yn siaradwyr Cymraeg, mae hyn yn golygu bod nifer o feysydd gwaith gan gynnwys enghreifftiau fel grwpiau theatr ieuenctid Cymraeg |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | (ynghyd â grwpiau dwyieithog a dysgwyr). Mae partneriaeth gyda City of Sanctuary a Choleg Cambria i annog teuluoedd sy'n ffoaduriaid yng ngogledd Cymru i ddysgu'r Gymraeg. |
| Datblygu mwy o ddramâu yn yr Iaith Gymraeg | Cyfarwyddwr Artistig / Cyd-Gynhyrchydd Theatr Clwyd | Parhaus | Cynnydd yn y cyfleoedd i glywed y Gymraeg | Mae Theatr Clwyd yn gweithio gydag ysgrifenwyr fel Bethan Marlow, Seiriol Davies ac Elgan Rhys ac yn cynnwys mwy a mwy o Gymraeg mewn cynyrchiadau megis y pantomeim. Mae'r theatr yn cynnal sioeau yn y Gymraeg a defnyddiwyd isdeitlau Cymraeg a Saesneg yn y |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | rhaglenni. |
| Datblygu mwy o awduron all weithio trwy gyfrwng y Gymraeg | Cyfarwyddwr Ymgysylltu Creadigol Theatr Clwyd | Parhaus | Cynnydd yn nifer y cynyrchiadau yn yr Iaith Gymraeg | Mae Theatr Clwyd hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Theatr Genedlaethol Cymru ar AM DDRAMA - rhaglen waith sy’n cefnogi ac yn datblygu ysgrifenwyr newydd yn y Gymraeg. |
| Cydweithio â Theatr Clwyd i ddatblygu cyfleoedd i hyrwyddo’r Iaith Gymraeg | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Parhaus | Cynnydd yn y cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a chynnydd yn amlygrwydd a hyglywedd yr Iaith Gymraeg. | Mae Theatr Clwyd wedi cynyddu nifer y gweithgareddau sydd ar gael yn y Gymraeg. |
| Creu pamffled yn targedu siopau a busnesau i hyrwyddo manteision darparu gwasanaethau yn ddwyieithog ac i gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg | Ymgynghorydd Polisi Strategol, Menter Iaith Fflint a Wrecsam a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Medi 2019 | Cynnydd yn amlygrwydd a hyglywedd yr Iaith Gymraeg | Parhaus |
| Annog siopau a busnesau i archwilio eu hopsiynau o ran defnyddio’r Gymraeg | Datblygu Busnes a Swyddog Datblygu “Cymraeg Byd” | Parhaus | Cynnydd yn amlygrwydd a hyglywedd y Gymraeg o fewn y sir, e.e. mwy o fwydlenni dwyieithog mewn caffis | Mae’r Tîm Datblygu Busnes yn parhau i hyrwyddo’r Gymraeg i |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | fusnesau. Hyrwyddwyd bwydlenni Cymraeg fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi |
| Cydweithio â Menter Iaith, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Fforwm Sirol i hyrwyddo gweithgareddau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg | Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol / Ymgynghorydd Polisi Strategol | Parhaus | Cynnydd yn y nifer sy'n dewis mynychu gweithgareddau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg.<br>Cynnydd yn y cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr y Gymraeg ddatblygu eu sgiliau | Caiff gweithgareddau rheolaidd eu cynnal a'u hyrwyddo |
| **Yn y gweithle** | | | | |
| Gweithwyr yn cwblhau archwiliad Sgiliau Iaith Gymraeg | Rhwydwaith Arweinwyr y Gymraeg | Gorffennaf 2019 | 100% o weithwyr yn cwblhau'r archwiliad sgiliau | Mae dros 99% o weithwyr wedi cwblhau'r archwiliad sgiliau Cymraeg |
| Cytuno ar a rhoi cynllun ar waith i ddatblygu sgiliau iaith gweithwyr a lleihau nifer y gweithwyr sydd heb unrhyw sgiliau iaith Gymraeg | Rhwydwaith Arweinwyr y Gymraeg, Dysgu a Datblygu | Medi 2019 | Nifer a % y gweithwyr sydd yn nodi nad oes ganddynt unrhyw sgiliau iaith Gymraeg yn gostwng | Parhaus. Caiff gweithwyr heb unrhyw sgiliau Cymraeg eu targedu i fynychu cwrs. |
| Adnabod cyfleoedd i ddathlu cyflawniadau dysgwyr y Gymraeg | Rhwydwaith Arweinwyr y Gymraeg, Dysgu a Datblygu | Ebrill 2019 | Caiff gweithwyr eu hannog i ddysgu Cymraeg | Parhaus |
| Gweithwyr newydd yn dysgu ymadroddion Cymraeg safonol sylfaenol fel rhan o'r broses anwytho | Dysgu a Datblygu | Mawrth 2020 | Cwrs wedi ei ddatblygu a nifer o weithwyr yn cwblhau'r hyfforddiant | Darparwyd hyfforddiant sgiliau Cymraeg sylfaenol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Annog rheolwyr i agor a chloi cyfarfodydd yn ddwyieithog | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Ebrill 2020 | Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle | Caiff ei hyrwyddo'n flynyddol fel rhan o Shw'mae/Su'mae |
| Ystyried agor a chloi cyfarfodydd y Cyngor yn ddwyieithog | Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol | Medi 2019 | Cynnydd yn hyglywedd y Gymraeg | Caiff rhagor o gyfarfodydd y Cyngor eu hagor a'u cau'n ddwyieithog |
| Adolygu prosesau recriwtio a phenodi i nodi a mynd i'r afael â materion ynghylch recriwtio siaradwyr Cymraeg i swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol | Ymgynghorydd Polisi Strategol / Adnoddau Dynol | Parhaus | Gweithwyr newydd yn deall ymroddiad y Cyngor tuag at yr Iaith Gymraeg ac yn fodlon dysgu'r Gymraeg os oes angen.<br><br>Cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n ymgeisio am swyddi. | Parhaus. Defnyddiwyd gwahanol fentrau i ddenu siaradwyr Cymraeg. |
| Pob gweithiwr i gwblhau modiwlau e-ddysgu ar ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Mawrth 2021 | 100% o weithwyr yn cwblhau'r modiwl e-ddysgu ar ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg.<br><br>Gweithwyr yn deall pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg. | Caiff cyfraddau cwblhau eu monitro'n flynyddol. Yn ogystal ag e-ddysgu, darperir sesiynau hyfforddiant wyneb yn wyneb hefyd. Mae'r modiwl e-ddysgu'n hanfodol. |
| Monitro gweithrediad y Polisi Cymraeg yn y | Rhwydwaith Arweinwyr y | Parhaus | Cynnydd yn amlygrwydd a hyglywedd yr Iaith Gymraeg | Mae'r arolwg agwedd tuag at y |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gweithle | Gymraeg | | | Gymraeg wedi'i gwblhau. |
| **Amcan: Creu amodau ffafriol i'r iaith ffynnu** | | | | |
| **Camau Gweithredu** | **Cyfrifoldeb** | **Ffrâm Amser** | **Canlyniad / Deilliant** | **Cynnydd** |
| Cymryd rhan yn Niwrnod Shwmae / Su'mae a'i hyrwyddo trwy wefan a safleoedd cyfryngau cymdeithasol y Cyngor | Ymgynghorydd Polisi Strategol mewn partneriaeth â'r Fenter Iaith | Blynyddol | Cynnydd mewn agweddau cadarnhaol tuag at yr Iaith Gymraeg a balchder o ddiwylliant Cymreig<br><br>Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg | Parhau i gymryd rhan yn y digwyddiadau hyn a'u hyrwyddo. |
| Datblygu cynllun i ddathlu dydd Gŵyl Dewi yn y sir sy'n cynnwys gwasanaethau a phartneriaid y Cyngor | Ymgynghorydd Polisi Strategol mewn partneriaeth â'r Fenter Iaith | Rhagfyr 2019 | Cynnydd mewn agweddau cadarnhaol tuag at yr Iaith Gymraeg a balchder o ddiwylliant Cymreig | Darparwyd cyllid i gefnogi dathliadau Dydd Gŵyl Dewi. |
| Annog Cynghorau Tref a Chymuned i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a digwyddiadau diwylliannol eraill Cymreig megis Diwrnod Su'mae a'r Cadi Ha. | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Mawrth 2019 | Cynnydd yn nifer y gweithgareddau ar Ddydd Gŵyl Dewi a thrwy gydol y flwyddyn | Anogwyd pob Cyngor Tref i gefnogi Dydd Gŵyl Dewi. Darparwyd baneri ar gyfer y prif drefi. |
| Codi proffil mentrau cenedlaethol e.e. gemau rygbi a phêl-droed i gynyddu'r ymdeimlad o falchder a pherthyn. | Ymgynghorydd Polisi Strategol ar y cyd â phartneriaid | Parhaus | Cynnydd yn nifer y gweithgareddau hyrwyddo | Parhaus |
| Archwilio'r cyfleoedd i gynnwys yr Iaith Gymraeg o fewn Cymalau Budd i'r Gymuned | Ymgynghorydd Polisi Strategol / Caffael | Medi 2019 | Contractwyr y Cyngor yn hyrwyddo a chefnogi diwylliant Cymreig e.e. trwy gyfrannu at fentrau sy'n trefnu dathliadau Dydd Gŵyl Dewi. | Wedi'i gwblhau. Mae'r Gymraeg bellach wedi'i chynnwys fel un o'r opsiynau gwerth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cymdeithasol pan mae contractwyr yn cyflwyno tendrau. |
| Adolygu’r broses gaffael a dyrannu contractau i sicrhau fod contractwyr yn cydymffurfio â Safonau’r Iaith Gymraeg. | Ymgynghorydd Polisi Strategol / Caffael | Mawrth 2020 | Contractwyr yn cydymffurfio â Safonau’r Iaith Gymraeg | Darparwyd canllawiau ychwanegol i gontractwyr posibl i sicrhau cydymffurfiaeth â’r Safonau. Mae cymal safonol ar y Gymraeg wedi’i gynnwys o fewn contractau. Mae cymal ychwanegol ar gael i dynnu arian yn ôl os nad yw’r contractwr yn cydymffurfio. |
| Gweithio mewn partneriaeth â’r Fforwm Sirol i nodi cyfleoedd i gydweithio a dull gwaith cyd-drefnus i hyrwyddo’r Iaith Gymraeg | Ymgynghorydd Polisi Strategol / Fforwm Sirol | Parhaus | Eir ati â dull partneriaeth i hyrwyddo’r Iaith Gymraeg, gan gynyddu cynhwysedd ac osgoi dyblygu ymdrech. | Cynhaliwyd ychydig o gyfarfodydd yn ystod COVID. Bydd yr ymrwymiad hwn yn parhau. |
| Cydweithio â’r Fforwm Sirol i fonitro ac adolygu targedau Strategaeth | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Parhaus | Targedau yn cael eu monitro a’u hadolygu yn rheolaidd.<br>Nodir ymyraethau ar y cyd a chymerir | Cynnwys y strategaeth fel eitem sefydlog ar |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg | | | camau gweithredu i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chynnydd. | y rhaglen |
| Adolygu polisïau a chanllawiau cynllunio i nodi cyfleoedd i warchod yr Iaith Gymraeg yn ystod y broses gynllunio | Cynllunio | Rhagfyr 2019 | Effeithiau negyddol ar yr Iaith Gymraeg yn lleihau | Mae'r Gymraeg wedi'i chynnwys fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol |
| Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg yn ystod yr Wythnos Fusnes blynyddol | Ymgynghorydd Polisi Strategol mewn partneriaeth â Choleg Cambria a Menter Iaith Fflint a Wrecsam | Blynyddol – Medi / Hydref | Busnesau â dealltwriaeth o bwysigrwydd yr Iaith Gymraeg | Hyrwyddwyd hyn yn 2019, ond ers COVID-19, mae'r Wythnos Fusnes yn defnyddio fformat gwahanol. |
| Cydweithio â Chyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint i adnabod mentrau sy'n annog y sector wirfoddol i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg. | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Mawrth 2020 | Mwy o sefydliadau yn y sector wirfoddol yn hyrwyddo'r Iaith Gymraeg ac yn cymryd rhan mewn mentrau sy'n dathlu diwylliant Cymreig. | Mae'r Gymraeg wedi'i chynnwys yn y broses grantiau. Mae CGLlSFf yn cefnogi sefydliadau i gynnwys mwy o Gymraeg yn eu gwaith a mabwysiadu polisïau Cymraeg. |
| Adnabod cyfleoedd i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a'i diwylliant trwy Gynllun Lles Sir y Fflint. | Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol | Mawrth 2019 | Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gwasanaethau'r Cyngor yn cyfrannu at Nod Llesiant Llywodraeth Cymru o "Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu" | Cwblhawyd prosiect y Gymraeg i ystyried recriwtio siaradwyr Cymraeg |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ystyried yr Iaith Gymraeg fel rhan annatod o Strategaeth Ddigidol y Cyngor | Rheolwr Cyflawni Rhaglen – Cwsmeriaid Digidol a Gwytnwch Cymunedol | Medi 2019 | Gofynion o ran yr Iaith Gymraeg ym mhrif ffrwd y gwasanaethau digidol. | Mae’r Gymraeg yn eitem sefydlog ar grŵp Gwefan y Cyngor. |